NEWYDDION TEULU A CHYHOEDDIADAU

Y SULIAU NESAF

Rhagfyr 28:
Emlyn Davies
Llywydd: Geraint Wyn Davies
Taflen a Sgrin: Emlyn Davies

Ionawr 4:
Oedfa Aelodau Ardal Pentyrch
Taflen a Sgrin: Emlyn Davies

Ionawr 11:
Y Parchg. Aled Edwards
Llywydd: Bethan Roberts
Taflen: Glenys Roberts; Sgrin: Mal Pate

Ionawr 18:
Huw M. Roberts
Llywydd: Iwan Rowlands
Taflen a Sgrin: Geraint Rees

Ionawr 25:
Oedfa Deuluol Santes Dwynwen
Llywydd: Heulyn Rees
Taflen a Sgrin: Heulyn Rees

DILLAD PLANT

Mae angen dybryd yn y Gwasnaethau Cymdeithasol am ddillad plant o bob oed, o fabis i blant yn eu harddegau. Mae croeso i chi adael dillad addas, mewn bagiau duon, yn llofft y capel, a bydd y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn sicrhau eu bod yn cyrraedd y lle iawn.

CARDIAU NADOLIG

Angen cerdyn ar y funud olaf?
Dewis da ar werth gan Ann Rees

AMDDIFFYN PLANT

Cytunodd Gwion Evans i fod yn gyfrifol am y drefn o amddiffyn plant ac oedolion bregus yn ein plith. Rydym yn diolch ac yn dymuno'n dda iddo wrth y gwaith.

NOSWYL NADOLIG

Cofiwch am y cyfarfod dwyieithog am 11:00p.m. Noswyl Nadolig.
Os medrwch gynnig eitem, neu os hoffech fod yn y band, mynnwch air gyda Geraint Rees rhag blaen.

LLYFRAU ARIANNOL

Cofiwch y bydd y llyfrau ariannol yn cau ar Ragfyr 31ain. Os nad ydych wedi cwblhau eich cyfraniadau, gwnewch hynny erbyn y Sul nesaf. Gwnewch ymdrech arbennig hefyd i gyfrannu tuag at yr elusennau drwy'r amlenni brown. Rhowch yn hael os gwelwch yn dda.

CÔR GODRE'R GARTH
CÔR Y CWM

CYNGERDD NADOLIG
Capel y Tabernacl, Efail Isaf
7.30yh Nos Sul Rhagfyr 21
Tocynnau £5 / £3 wrth y drws
Yr elw i Bangla Cymru
ac achosion lleol

HAMPERI NADOLIG

Diolch i bawb a gyfrannodd i greu'r hamperi Nadolig eleni i bobl ifanc sy'n sefydlu cartref am y tro cyntaf yn yr ardal.

DIOLCH I BAWB

Diolch i'r dwsinau o aelodau a fu'n gweithio'n ddiwyd drwy'r flwyddyn i sicrhau llwyddiant yr achos yn y Tabernacl - yn gyhoeddus, yn y cefndir, yn yr Ysgol Sul, yn y pwyllgorau, yn yr oedfaon ac yn y gymuned.

NADOLIG LLAWEN I BAWB